# Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher,3 Rhagfyr 2003

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
Gofynnwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd Cwestiwn 9 i'w ateb yn ysgrifenedig.

**2.22pm**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf.

**2.49pm**
**Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar Araith y Frenhines a dadl i ddilyn**
*NDM1731 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys Rhaglen Ddeddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer 2003-04; a

2. Yn cymeradwyo bod y Mesurau hynny sy'n arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau'r Cynulliad yn cael eu hystyried ymhellach gan y pwyllgorau pwnc priodol. Dylai'r ystyriaeth honno roi sylw i'r darpariaethau y dylai pob Mesur eu gwneud ar gyfer Cymru a sut y gallai'r Cynulliad ddefnyddio'i bwerau newydd yn hynny o beth.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu Pwynt 2 a rhoi yn ei le:

2. Yn gresynu nad yw Llywodraeth San Steffan yn mynd i'r afael â'r broblem ddifrifol o gynnydd mewn troseddau y mae pobl Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfan yn ei hwynebu, yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer 2003-2004.

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal trafodaethau o fewn Llywodraeth y DU er mwyn rhoi blaenoriaeth i Ddeddf Llywodraeth Cymru newydd a fyddai'n datganoli pwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol ac amrywio trethi i'r Cynulliad Cenedlaethol ac, yn y cyfamser, mae'n gresynu at y diffyg dylanwad sydd gan Gymru dros gynnwys Mesurau ar gyfer Cymru'n unig yn sgil y ffaith nad oes gennym Ysgrifennydd Gwladol llawn amser yng Nghabinet y DU.

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod mesurau wedi’u cynnwys i gyflwyno ffïoedd ychwanegol mewn Sefydliadau Addysg Uwch.

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi'i hepgor.

**Gwelliant 5**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod mesurau i sicrhau mai’r tyfwyr sy’n atebol am halogi cnydau organig neu gonfensiynol gan organebau wedi'u haddasu'n enetig wedi'u hepgor.

**Gwelliant 6**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cynnig i sefydlu Cronfa Diogelu Pensiynau o fewn Mesur Pensiynau newydd ac yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y Gronfa yn diogelu pensiynau'r gweithwyr hynny y mae eu cwmnïau yn dod i ben ar hyn o bryd.

**Gwelliant 7**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na wnaed unrhyw beth ynghylch:

a) Gwneud Dydd Gwyl Dewi yn Wyl Banc yng Nghymru,

b) Sicrhau gofal personol rhad ac am ddim i'r henoed, a

c) Gwahardd ysmygu mewn adeiladau cyhoeddus penodol.

**Gwelliant 8**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth San Steffan yn mynd ati o ddifrif i ymdrin â thlodi ymysg pensiynwyr yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig gyfan yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer 2003-2004.

**Gwelliant 9**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth San Steffan yn cynnig unrhyw gymorth i fyfyrwyr sy’n wynebu dyled ariannol yng Nghymru yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar gyfer 2003-2004.

**Gwelliant 10**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y prinder mesurau penodol ar gyfer Cymru yn Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth San Steffan ar gyfer 2003-2004.

**Gwelliant 11**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes unrhyw gynigion deddfwriaethol penodol i ddatrys problemau gweithwyr Allied Steel ac eraill y mae eu pensiynau yn ddiwerth erbyn hyn, yn Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth San Steffan ar gyfer 2003-2004.

**Gwelliant 12**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes unrhyw ddeddfwriaeth ar gyfer cyflwyno elfen ddemocrataidd i Dy'r Arglwyddi yn Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth San Steffan ar gyfer 2003-2004.

**Gwelliant 13**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y gallai'r Mesur Elusennau Drafft arfaethedig gyfyngu ar y sawl sy'n ceisio trefnu gweithgareddau codi arian elusennol ac yn galw ar lywodraeth y DU i ailfeddwl am eu cynigion.

**Gwelliant 14**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r penderfyniad i ganiatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu sut y dylid ariannu Addysg Uwch yng Nghymru, ond yn gresynu at y ffaith y bydd y fformiwla ariannu annigonol ar gyfer Cymru yn cyfyngu ar ei allu i ganfod dulliau ariannu heblaw am ffïoedd dysgu.

**Gwelliant 15**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai dim ond un mesur penodol ar gyfer Cymru oedd yn Araith y Frenhines ac yn galw ar lywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer creu Senedd i Gymru a chanddi'r pwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol.

**Gwelliant 16**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio’r cynigion i gyfyngu ar hawliau ceiswyr lloches i apelio, a fydd yn niweidio dioddefwyr dilys ac yn tanseilio ymhellach ansawdd y penderfyniadau ar achosion lloches.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 44; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 20; Ymatal 4; Yn erbyn 31; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 8**

**Gwelliant 9**
O blaid 26 Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 9**

**Gwelliant 10**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 10**

**Gwelliant 11**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 11**

**Gwelliant 12**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 12**

**Gwelliant 13**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 13**

**Gwelliant 14**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 14**

**Gwelliant 15**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 15**

**Gwelliant 16**
O blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd gwelliant 16**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 56
**y Cynnig**

**5.03pm**
**Dadl fer - NDM1726 Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Y Gronfa Adfywio Lleol ac Arian Cyfatebol – Bargen Wael i Gymru?

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.23pm**

**************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 03 Rhagfyr 2003

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 01 Ebrill 2002 hyd at 31 Mawrth 2003 - LD2512

### Dogfennau a Osodwyd ar 02 Rhagfyr 2003

- Local Government Finance Report 2004-05 (Final Settlement – Councils) - LD2510 - Dim Copi Cymraeg ar Gael
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2502
- Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003 - LD2503
- The Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2003 - LD2504 - Dim Copi Cymraeg ar Gael
- The Plant Protection Products Regulations 2003 - LD2505 - Dim Copi Cymraeg ar Gael
- Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch (Cymru) 2003 - LD2506
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2507

### Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 02 Rhagfyr 2003

- LC797 - Gorchymyn Cwn yn Baeddu (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003 - LD2508
- LC798 – Gorchymyn Sbwriel (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003 LD2509
- LC792 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2483
- LC791 - Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004 - LD2484
- LC795 - Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 - LD2485
- LC796 - Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 - LD2486
- LC802 - Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003 - LD2487
- LC804 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) 2003 - LD2488

- LC783 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003 - LD2489
- LC786 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003 - LD2490
- LC788 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003 - LD2491
- LC789 - Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 - LD2492
- LC790 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003 - LD2493
- LC793 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003 - LD2494
- LC794 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 - LD2495
- LC800 - Rheoliadau Colagen a Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) (Cymru) 2003 - LD2496
- LC801 - Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003 - LD2497
- LC803 - Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2498
- LC805 - Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2499

**Deiseb a ddaeth i law ar 26 Tachwedd 2003**

**Deiseb:** Datganiad dros Ddyfodol Cymunedau Cymru (PO44CC)

**Prif Ddeisebydd:** Cymdeithas yr Iaith

**Nifer y Deisebwyr:** 1848

Galwn ar lywodaeth Cymru ynghyd â holl awdurdodau lleol Cymru i fabwysiadu a gweithredu polisiau tai a chynllunio a fydd yn sicrhau dyfodol cynaladwy yr iaith Gymraeg a'r amgylchedd naturiol ym mhob cymuned yng Nghymru.

Dylent fabwysiadu'r egwyddorion canlynol fel sail i bolisiau cyfrifol:

- Bod gan bawb yr hawl i gartref a bod tai ac eiddo yn cael eu hystyried fel angen yn hytrach na nwydd masnachol

- Bod mynediad pobl leol i'r stoc bresennol o dai ac eiddo yn cael ei hyrwyddo a'i sicrhau

- Bod prisiau tai ac eiddo yn adlewyrchu'r farchnad leol

- Fod y gyfundrefn gynllunio yn diogelu'r iaith Gymraeg ac yn gwasanaethu anghenion cymunedau lleol.